



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad rhanddeiliaid wedi'i dargedu a galwad am dystiolaeth ar drapiau glud**

Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid ar drapiau glud rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd.

Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys:

1. Sefydliadau lles anifeiliaid sydd wedi mynegi barn ar drapiau glud
2. Cyrff cynrychioliadol ar gyfer rheolwyr plâu proffesiynol
3. Awdurdodau Lleol

Mae rhestr lawn o'r sefydliadau ar ddiwedd y crynodeb

### **Rhan I: Cwestiynau i gyrrff anllywodraethol lles anifeiliaid a chyrrff y diwydiant rheoli plâu**

#### **1. Ydych chi'n defnyddio trapiau glud yn rheolaidd? Faint a pha mor aml?**

Dywedodd y ddau gorff cynrychioliadol ar gyfer rheolwyr plâu fod rhai o'u haelodau'n defnyddio trapiau glud. Cyfrifwyd hyn gan Gymdeithas Rheoli Plâu Prydain o sampl o 404 o aelodau ar draws y DU sy'n defnyddio byrddau glud fel hyn: 6 y cant yn ddyddiol; 30 y cant yn fisol; 18 y cant yn chwarterol; 16 y cant yn flynyddol; 3 y cant lai nag unwaith y flwyddyn; a 3 y cant byth. Nid oedd gwybodaeth am faint o'r ymatebwyr sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'i chynnwys.

Ymatebodd yr RSPCA er bod y defnydd o drapiau glud wedi'i wahardd yn eu safleoedd eu hunain, eu bod wedi derbyn 7 adroddiad o anifeiliaid mewn tralod oherwydd trapiau glud yng Nghymru rhwng 2016 a 2021 a chyfanswm o 270 o adroddiadau ar draws Cymru a Lloegr yn ystod yr un cyfnod.

#### **2. Pa amgylchiadau penodol sy'n gofyn am ddefnyddio trapiau glud fel yr unig ddull hyfyw o reoli plâu? Pa ddulliau amgen o reoli plâu sydd ar gael?**

Mae'r ddau gorff rheoli plâu yn ystyried trapiau glud fel rhan hanfodol o'u pecyn adnoddau – pecyn adnoddau maen nhw'n honni sydd wedi bod yn crebachu oherwydd gostyngiad mewn cynhyrchion lladd cnofilod cyfreithlon. Mae Cymdeithas Genedlaethol Technegwyr Plâu (NPTA) yn cyfeirio at God Ymarfer gwirfoddol y diwydiant sy'n nodi mai dim ond lle mae (a) risg ar fin digwydd i iechyd y cyhoedd, neu (b) lle mae pob dull arall wedi profi'n aneffeithiol, y dylid defnyddio trapiau glud.

Mae tystiolaeth o ymrwethedd cynyddol i elfennau sydd yn y mwyafrif o gynhyrchion lladd cnofilod yn rheswm arall mae rheolwyr plâu yn dadlau dros barhau i ddefnyddio trapiau glud - yn benodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol (maen nhw'n cytuno na ddylid caniatáu i'r cyhoedd eu defnyddio). Mae Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) yn dweud bod lles anifeiliaid yn bryder canolog i'w haelodau ac yn un o nifer o ffactorau wrth benderfynu ar y dull gorau i'w ddefnyddio. Mae 50% o'u haelodau wedi defnyddio trapiau glud mewn tafarndai, clybiau a bwytai, 47% mewn archfarchnadoedd a siopau bwyd a 24% mewn cartrefi gofal ac ysgolion. Roedd 30% wedi eu defnyddio mewn swyddfeydd ond ni roddwyd unrhyw wybodaeth ynglŷn â beth oedd y risg oedd ar fin digwydd i iechyd y cyhoedd yn y sefyllfaoedd hynny. Mae asesiad (isod) o wahanol dulliau gan y BPCA yn dangos mai trapiau glud yw'r unig ddull a all fodloni pob un o'r pedwar maen prawf.

	Dulliau sydd ar gael					
	Diogelu rhag cnofilod	Peidio rhoi bwyd a dŵr	Cael gwared ar loches	Dal	Bioladdwyr	Byrddau glud (gludiog)
Gellir ei ddefnyddio wedi i bla ddigwydd	✘	✘	✘	✓	✓	✓
Dim perygl o wenwyno eilaidd	✓	✓	✓	✓	✘	✓
Lladd cnofilod ar unwaith	✘	✘	✘	✓	✘	— Nid yw byrddau wedi'u cynllunio i ladd cnofilod. Mae byrddau'n cael eu gwirio ddim llai na phob 12 awr, ac mae cnofilod sydd wedi'u dal yn cael eu lladd yn drugarog wedyn gan y gweithiwr plâu proffesiynol
Ymladd yn gyflym yn erbyn pla	✘	✘	✘	— Mae llygod mawr yn naturiol amheus o bethau newydd ac yn aml byddant yn osgoi trapiau sydd newydd eu gosod am beth amser	✘	✓ Gellir gosod byrddau lle mae'n rhaid i gnofilod deithio i gael bwyd, dŵr a lloches

Mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) a Chymdeithas Sŵolegol Milfeddygol Prydain (BVZS) yn cydnabod bod cyfiawnhad iechyd cyhoeddus ac, yn wir, rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol yn Neddf Atal Difrod gan Blâu (1949) i reoli cnofilod. Fodd bynnag, maent yn dadlau bod trapiau glud yn ddull creulon o faglu a lladd cnofilod, fel y nodir mewn tystiolaeth, ac y dylid defnyddio dulliau amgen ym mhob sefyllfa.

Roedd y cyrff lles anifeiliaid yn unedig yn y farn hon nad oes unrhyw amgylchiadau lle gellir dweud mai trapiau glud yw'r unig ddull ymarferol, a bod digon o ddewisiadau amgen ar gael mewn gwirionedd sy'n golygu nad oes angen defnyddio trapiau glud. Cyfeiriwyd at ddewisiadau eraill megis cynhyrchion lladd cnofilod, (rhai) trapiau snap, a maglau cipio byw (ar gyfer rhyddhau byw neu ladd mecanyddol) fel dulliau llawer mwy trugarog. Tynnwyd sylw at sawl astudiaeth (a restrir ar ddiwedd y crynodeb hwn) sy'n trafod manteision a charedigrwydd y gwahanol ddulliau hyn, a'u haddasrwydd mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Cafodd atal plâu cnofilod a'r dull o'u cau allan eu trafod fel elfennau hanfodol wrth reoli plâu hefyd.

Cyfeiriwyd at drapiau glud fel y dull gwaethaf o ran eu creulondeb ac am eu bod yn dal rhywogaethau heblaw'r rhai a dargedir yn aml – gyda thri o bob pedwar anifail mewn trapiau glud mae'r RSPCA yn ymateb iddynt yn anifeiliaid gwahanol i'r rhai a dargedir megis mathau eraill o fywyd gwyllt, gan gynnwys ystlumod a draenogod, ac anifeiliaid anwes domestig megis parotiaid a chathod. Mae amgylchiadau eu dal, a'r anafiadau a gânt, yn golygu bod angen ewthanasia ar yr anifail yn aml. Mae'r RSPCA yn awgrymu hefyd bod y rhain yn drapiau glud sy'n cael eu gosod gan amaturiaid yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.

Gall trapiau glud fod yn fwy deniadol i ddefnyddwyr oherwydd eu bod yn opsiwn rhad iawn a gellid ystyried eu bod yn cael eu cymeradwyo'n swyddogol o ystyried eu bod ar gael yn rhwydd i'w prynu ac mae ganddynt ddeunydd pecynnu camarweiniol yn aml sy'n dweud nad ydynt yn wenwynig a'u bod yn hawdd i'w ddefnyddio. Roedd hyn yn cefnogi'r dadleuon a gyflwynwyd gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y BPCA a'r NPTA, am wahardd y cyhoedd rhag eu defnyddio. Fodd bynnag, mae sefydliadau lles anifeiliaid yn honni bod y dystiolaeth yn cefnogi gwaharddiad ar gyfer rheolwyr plâu hefyd.

Er bod rhai sefydliadau'n cydnabod bod dadl wedi'i chyflwyno mai dim ond mewn sefyllfaoedd risg uchel sylweddol lle mae bygythiad i iechyd y cyhoedd mae trapiau glud yn cael eu defnyddio ac felly lle mae cyflymder yn flaenoriaeth (e.e. ysbytai), maent yn dadlau bod y tebygolrwydd o ddiodefaint yn golygu na ddylai fod unrhyw amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau eu defnyddio. At hynny, tynnodd yr adroddiad gan Gomisiwn Lles Anifeiliaid yr Alban sylw at y ffaith nad yw trapiau glud bob amser yn cael eu defnyddio mewn achosion eithriadol yn unig a'i bod yn ddigon posibl bod rhai gweithredwyr yn gwneud defnydd cyffredinol ohonynt. Mae'r RSPCA yn awgrymu er bod trapiau glud wedi'u ffafrio i ddechrau mewn sefyllfaoedd lle'r oedd gwenwyn yn cael ei ystyried yn annerbyniol megis manau paratoi bwyd, mae eu defnydd wedi tyfu ac ehangu i sefyllfaoedd eraill.

Tynnwyd sylw hefyd at y label rheoli 'plâu' a sut y gall hyn ddylanwadu'n negyddol ar ddulliau o reoli niferoedd y rhywogaethau hyn a sefyllfaoedd lle maent yn mynd i mewn i amgylcheddau dynol. Yr haerriad yw bod dulliau llai trugarog wedi cael eu cymeradwyo neu eu hystyried yn dderbyniol er gwaethaf tystiolaeth bod lles yr anifeiliaid hyn yn cael ei gyfaddawdu mewn ffordd na fyddai'n cael ei oddef yn achos rhywogaeth mwy

'gwerthfawr'. Pwysleisiodd OneKind hyn drwy dynnu sylw at y rhagfarn gynhenid yn ein systemau yn erbyn anifeiliaid a ystyrir yn 'blâu' ac felly y rhoddir llai o ystyriaeth iddynt. Pan ddaw stori i'r amlwg am anifail anwes yn cael ei ddal, ei anafu neu ei ladd gan drap glud mae'r ymateb yn llawer cryfach fel arfer nag yw yn achos llygoden fawr.

### 3. A yw'r dulliau amgen hyn o reoli plâu yn effeithiol?

[Roedd y ddau gorff rheoli plâu o'r farn eu bod wedi ateb hyn yn rhif 2 uchod]

Cafwyd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn gan y sefydliadau lles anifeiliaid. Cydnabu UFAW nad yw dewisiadau amgen yn gweithio mor gyflym â thrapiau glud, ond nododd bod y cenhedloedd hynny sydd â gwaharddiad yn gallu ymdopi gyda dim ond y dewisiadau amgen hynny sydd ar gael iddynt.

Rhodddwyd pwyslais unwaith eto ar yr angen i atal pla gan cnoflod rhag digwydd yn ogystal â'r angen i herio'r syniad o'r hyn sy'n bla a sut y gall lles pob anifail gael ei amddiffyn yn fwy cyfartal. Pan fo'n rhaid mynd i'r afael â phla, mae'r Born Free Foundation yn awgrymu y dylai dwy egwyddor fod yn ganolog, sef 1) effeithio ar ddim mwy o anifeiliaid nag sydd angen i gyflawni'r nod, a 2) mireinio dulliau rheoli i leihau dioddefaint diangen (poen a gofid). Dadleuir y dylai egwyddorion moesegol fod yn sail i benderfyniadau wrth gyfiawnhau targedu rhywogaeth ag unrhyw ddull rheoli, er mwyn lleihau effeithiau negyddol.

Nododd yr RSPCA rai o'r pryderon lles gyda dewisiadau amgen hefyd, sy'n eithaf sylweddol. Unwaith eto, roedd y pwyslais yn yr ymatebion hyn ar ddulliau nad ydynt yn farwol fel atal mynediad, cael gwared ar ffynonellau bwyd, a chynyddu gweithgarwch dynol, y maent yn awgrymu eu bod yn gallu bod yn fwy effeithiol yn enwedig yn y tymor hir.

### 4. Pa sgil-effeithiau fyddai pe na bai trapiau glud ar gael fel dull o reoli plâu?

Mae cyrff rheoli plâu'n cynnig rhestr o'r amrywiaeth eang o leoliadau lle mae cnoflod yn peri risg sylweddol i iechyd pobl, oherwydd y gwahanol glefydau y gallant eu trosglwyddo, fel tystiolaeth o ganlyniadau gwaharddiad ar drapiau glud. A dadleuir, mewn sefyllfaoedd lle mae'n profi'n anodd dal y cnoflod, y bydd y bobl yn yr amgylchedd hwnnw o dan bwysau sylweddol, gan beryglu eu hiechyd meddwl a chorfforol.

Mae'r NPTA yn dyfynnu tystiolaeth bod gan 93% o lygod tŷ enyn ymwrthol a bod gan 61% o lygod mawr o leiaf un genyn ymwrthol i gynhyrchion lladd cnoflod, fel dadl dros beidio â chael gwared ar drapiau glud fel dull amgen o ystyried nifer y dulliau eraill, a'u heffeithiolrwydd, sydd dan fygythiad eisoes.

Ar y llaw arall mae'r sefydliadau lles anifeiliaid yn awgrymu bod y canlyniadau'n gadarnhaol gan y bydd safonau lles anifeiliaid yn cael eu gwella'n fawr. Mae'r Born Free Foundation yn dyfynnu tystiolaeth nad oes ffordd gwbl drugarog o gael gwared ar lygod mawr, ond lle ystyrir bod eu rheoli drwy ladd yn angenrheidiol, gellir lleihau'r effeithiau trwy ddewis y dull cywir ar gyfer y sefyllfa a'i ddefnyddio'n gywir, fel yr awgryma'r dystiolaeth ar les. Cydnabyddir hefyd y byddai'r maes ymchwil hwn yn elwa o fwy o gyllid i bennu dulliau gwell, yn enwedig dulliau atal (a argymhellir yn gryf gan y BVA a

BVZS hefyd). Awgrymwyd hefyd, mewn gwledydd fel Iwerddon, Seland Newydd a rhannau o Awstralia, bod gwaharddiad ar drapiau glud wedi arwain at ddim dirywiad o ran lles anifeiliaid a phe bai Cymru'n dilyn eu hesiampl dim ond canlyniadau cadarnhaol i anifeiliaid allai ddeillio o hyn.

Archwiliwyd y mathau o anafiadau a dioddefaint a wynebhir gan anifeiliaid sy'n cael eu dal mewn trapiau glud yn y cyflwyniadau yn eithaf manwl - pan fydd anifeiliaid yn ceisio dianc, mae croen a ffwr yn cael eu rhwygo'n aml ac esgyrn yn cael eu torri, a gallant gnoi drwy eu coesau eu hunain. Hyd yn oed pan gedwir at y cod gwirfoddol ar gyfer defnyddwyr proffesiynol, dim ond bob 12 awr mae angen bwrw golwg ar y trapiau hyn, ond mae'n ddigon posib y bydd defnyddwyr nad ydynt yn broffesiynol yn eu gadael am fwy o amser, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall yr anifail ddiodeff poen a gofid mawr. Gallant farw drwy ddiffyg bwyd a dŵr a diodeff gorludded difrifol. Mae rhai wedi boddi'n araf yn y glud. Ychwanegodd y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Gwyllt y gall cigysyddion ymosod ar anifeiliaid wedi'u caethiwo neu eu hysglyfaethu ac yn eu barn hwy dylid ystyried y dioddefaint meddyliol a chorfforol a achosir gan hyn yn hollol ddigysyfiawnhad. Nid yw hyn yn gyfyngedig i rywogaethau targed chwaith, fel y soniwyd yn gynharach.

## 5. Beth fyddai'r goblygiadau economaidd a chymdeithasol?

Unwaith eto mae cyrff rheoli plâu'n awgrymu bod y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r clefydau a gludir gan gnofilod, a sut y gallai trosglwyddo fod yn fwy tebygol os yw'r gwahanol ddulliau o reoli yn cael eu lleihau, yn ddiwrthdro. Gall rhai o'r clefydau hyn achosi niwed meddyliol a chorfforol sylweddol, a gallant fod yn angheuol i bobl hyd yn oed. I'r rhai lle mae salwch o'r fath yn eu hatal rhag gweithio gall hyn achosi caledi economaidd ychwanegol. Awgrymir hefyd y gallai rhai busnesau, er enghraifft yn y sector bwyd, orfod cau am gyfnodau hirach os yw trapiau glud yn cael eu gwahardd gan y gall dulliau eraill gymryd llawer mwy o amser. Efallai fod pa mor aml y byddai hyn yn digwydd neu'r costau amcangyfrifedig i unigolion neu gymdeithas yn anhysbys gan na chafodd y wybodaeth honno ei darparu.

Ar y llaw arall mae sefydliadau lles anifeiliaid yn awgrymu y byddai gwaharddiad ar drapiau glud yn adlewyrchu'n well ddisgwyliadau a gwerthoedd y cyhoedd yng Nghymru ac y gallai arwain at fanteision cymdeithasol. Mae ymgyrchoedd gan sefydliadau lles anifeiliaid ac unigolion wedi gweld cefnogaeth ar raddfa fawr gyda dros 75,000 o lofnodion yn cael eu casglu ar un ddeiseb [change.org](http://change.org). Mae The Humane Society International UK (HSI) yn dyfynnu arolwg barn YouGov yn 2015 a ganfu mai dim ond 9% o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu gwaharddiad ar drapiau glud. Awgrymir bod gwahardd trapiau glud fel modd o ddal cnofilod yn gallu dangos pa mor aneffeithiol a chreulon ydynt, a helpu i newid agweddau tuag at y creaduriaid ymdeimladol hyn gan gynnwys sut i ymdrin â chnofilod neu atal pla yn y lle cyntaf. Byddai gwaharddiad yn well adlewyrchiad o gymdeithas sy'n ystyried y fath fodd o reoli plâu yn annerbyniol.

Mae pryder efallai na fydd llawer o aelodau'r cyhoedd yn deall sut i ddefnyddio trapiau glud yn gywir neu sut y mae'n rhaid ymdrin ag anifail wedi'i ddal a'i ladd wedyn (mae'n annhebygol iawn y gall yr anifail gael ei ryddhau'n ddiogel ac yn drugarog o'r trap glud i'w ryddhau heb niwed yn rhywle arall), ac felly efallai y bydd y trap glud yn cael ei daflu gyda'r anifail byw yn dal yn sOWNd wrtho. Efallai na fydd llawer o bobl yn deall chwaith y gallai gwneud hynny fod yn drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gan olygu y gallent gael eu herlyn. Hefyd, mae'n bosibl y byddant yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn gallu lladd yr anifail mewn ffordd drugarog, a gallai hynny fod yn wir yn aml os nad oes ganddynt yr wybodaeth na'r sgiliau perthnasol. Dangosodd un arolwg barn YouGov (ar gyfer HSI) na fyddai dros hanner yr ymatebwyr yn gwybod beth i'w wneud ag anifail

byw sydd wedi'i ddal, neu y byddent yn argymhell cam fel boddi, a fyddai'n anghyfreithlon. Dim ond 20 y cant oedd yn ymwybodol o'r dull a ffefrir, a'r dull cyfreithlon, sef taro'r anifail gydag ergyd galed i achosi marwolaeth ar unwaith.

Mae trin a thrafod anifail mewn trap glud yn dod â'r defnyddiwr i gysylltiad agos â'r anifail hefyd (trwy frathiad, neu drwy wrin neu ysgarthion, sy'n gallu bod yn ymateb i straen hefyd), sy'n peri risg iechyd llawer mwy.

Dadleuwyd hefyd bod cost amgylcheddol yn gysylltiedig â defnyddio trapiau glud oherwydd nad oes modd eu hailddefnyddio a bod angen eu gwaredu'n briodol (o ystyried eu bod yn cynnwys glud nad yw'n sychu) – felly gall rhai o'r dulliau amgen gynnig mwy o fuddion amgylcheddol.

**6. Mae trapiau glud wedi'u gwahardd mewn gwledydd eraill (e.e., Iwerddon a Seland Newydd). A ydych yn ymwybodol o unrhyw effeithiau negyddol y mae hyn wedi'u cael yno ar reoli plâu?**

Mae'r BPCA yn credu nad oes modd cymharu'r sefyllfa yn Seland Newydd o ystyried eu bod yn wynebu problemau plâu gwahanol iawn, a dylid nodi y gall rheolwyr plâu proffesiynol ddefnyddio trapiau glud o hyd. Mae'r NPTA yn cytuno nad yw'r dystiolaeth yn glir ond bod unrhyw ostyngiad neu gyfyngiad ar ddulliau yn sicr o gael effaith negyddol ar iechyd y cyhoedd.

Fe wnaeth y sector lles anifeiliaid ymateb i ddweud nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw effeithiau negyddol. Dadl UFAW yw ei bod yn nodedig bod gwledydd eraill wedi gwahardd neu gyfyngu'n sylweddol ar y defnydd o drapiau glud heb wynebu plâu anorchfygol o gnofilod. Mae'r Born Free Foundation yn cyfeirio at wledydd lle mae dull trwyddedu llym wedi'i fabwysiadu, mae nifer y ceisiadau am drwyddedau o'r fath wedi bod yn gyfyngedig sy'n awgrymu bod dulliau amgen o reoli llygod mawr wedi cael eu mabwysiadu a bod hynny'n effeithiol. Mae nifer y trwyddedau yn Seland Newydd wedi gostwng ers cyflwyno'r cynllun, o 24 yn 2015, i bedair yn 2020, (ynghyd â chyfanswm y trapiau glud a werthwyd dan gymeradwyaeth Gweinidogion yn gostwng o 24,564 yn 2015 i ddim ond 48 yn 2019) a allai fod yn dystiolaeth bod dewisiadau amgen yn gweithio.

Mae yna awgrym bod y Llywodraeth yn Iwerddon o'r farn nad oedd y cyhoedd o bosibl yn llwyr ymwybodol nad yw trapiau glud yn ddull rheoli plâu a ganiateir yno ac felly argymhellwyd bod y gwaharddiad yng Nghymru yn cael ei gyflwyno law yn llaw ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn enwedig os bydd gwerthu neu brynu trapiau glud yn parhau i fod yn gyfreithlon.

Tynnodd HSI sylw at Wlad yr Iâ fel y wlad ddiweddaraf i gyflwyno gwaharddiad ym mis Rhagfyr 2021, gydag awdurdodau yno yn cyfeirio at Erthygl 28 o'r Ddeddf Lles Anifeiliaid, sy'n gwahardd defnyddio dulliau sy'n achosi caethiwo neu boen diangen. Maent yn cyfeirio at y gwaharddiad yn Victoria, Awstralia hefyd a oedd wedi caniatáu defnydd gan reolwyr plâu proffesiynol i ddechrau ond sydd wedi dileu'r eithriad hwn yn ddiweddar gan wahardd gwerthu, gosod a defnyddio unrhyw drap glud sy'n gallu dal anifail. Mae HSI yn awgrymu mai pryderon lles anifeiliaid, cydymffurfiaeth a gorfodi oedd y rhesymau am hyn.

## 7. Pa dystiolaeth yr ydych yn ymwybodol ohoni fod trapiau glud naill ai'n ddull creulon neu heb greulondeb o reoli plâu?

Mae'r BPCA yn credu bod trapiau glud mor drugarog ag unrhyw ddull arall pan fyddant yn nwylo rheolwr plâu proffesiynol. Mae'r NPTA yn cydnabod bod gan fyrddau glud y gallu i achosi dioddefaint, ond maent yn dadlau bod dileu cnofilod, am resymau iechyd a diogelwch y cyhoedd, yn bwysicach. Mae'r ddau gorff rheoli plâu'n cyfeirio at god ymarfer gwirfoddol y diwydiant sydd, ymysg amodau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i drap gael ei wirio bob 12 awr o leiaf (ni roddir ystyriaeth i'r broblem o sut i sicrhau y cydymffurfir â'r cod yn y rhan fwyaf o amgylchiadau). Ar y llaw arall mae tystiolaeth anecdotaidd bod trapiau glud yn cael eu defnyddio'n aml lle mae lladd ar unwaith yn digwydd – sy'n golygu bod gofyn i reolwyr plâu aros ar y safle. Byddai hyn yn lleihau'r amser y gall yr anifail fod yn dioddef, fodd bynnag nid yw'n glir pa mor ymarferol y gallai hyn fod yn arbennig o safbwynt economaidd i'r rheolwr plâu.

Mae yna gytgord ymysg sefydliadau lles a barn gref fod trapiau glud yn un o'r dulliau mwyaf creulon o reoli plâu sy'n dal i fod yn gyfreithlon yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r BVA, BVZS a Phwyllgor Lles Anifeiliaid Gwyllt yn nodi bod defnyddio techneg debyg ar gyfer dal adar (calch adar) eisoes wedi'i wahardd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (WCA).

Mae llawer o sefydliadau wedi sôn am natur dal anifeiliaid heblaw'r rhywogaeth darged a'r ffaith nad yw trapiau glud yn gwahaniaethu rhwng un rhywogaeth a'r llall yn eu hanfod. Mae Cats Protection yn cyfeirio at natur grwydrol cathod a sut maen nhw, o ganlyniad, yn arbennig o agored i niwed drwy gael eu dal mewn trapiau glud, fel y mae astudiaethau achos wedi dangos. Maent nid yn unig yn dioddef anafiadau ofnadwy drwy gael eu dal ond gallant wynebu marwolaeth hir a phoenus hefyd os nad ydynt yn cael eu darganfod mewn pryd. Gan eu bod yn llawer mwy na chnofilod, gall cathod fynd yn sownd mewn sawl trap (awgrymodd un astudiaeth achos bedwar trap yn achos un gath anffodus) gan ddioddef hyd yn oed mwy o anafiadau, ac mae'n bosibl eu bod yn gallu symud pellter byr a mynd o'r golwg a gorwedd yno wedi'u hanafu a heb eu canfod.

Cyfeiriwyd at nifer o bapurau ymchwil a gwyddonol i ddangos sylfaen dystiolaeth gref ar natur y dioddefaint y mae anifeiliaid yn ei brofi o ganlyniad i gael eu dal mewn trap glud (rhestrir y rhain, ynghyd â chyfeiriadau a ddarparwyd gan eraill, ar ddiwedd y ddogfen grynoded hon). Mae rhai o'r astudiaethau hyn wedi canfod, er y gellir ystyried rhai dulliau rheoli'n drugarog o'u defnyddio'n gywir, rhaid ystyried bod trapiau glud yn greulon bob amser oherwydd hyd yr amser y gall yr anifail ddioddef cyn cael ei ladd. Cefnogwyd hyn gan astudiaeth arall a ganfu fod rhwng 84 ac 85% o gnofilod yn dal i fod yn fyw 24 awr ar ôl cael eu dal mewn trap glud.

Cyflwynwyd sawl astudiaeth achos hefyd, ynghyd â ffotograffau, i ddangos natur y dioddefaint a'r amrywiaeth eang o anifeiliaid sydd wedi cael eu dal mewn trapiau glud sy'n cefnogi'r ddadl nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng un anifail a'r llall yn eu hanfod.

## 8. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ymchwil ar gost a manteision trapiau glud naill ai yn y DU neu dramor?

Ni ddarparodd y naill gorff rheoli plâu na'r llall ymchwil nac ystadegau ar gostau a manteision trapiau glud ar gyfer rheoli plâu, ond ail-bwysleisiodd y ddau eu pwysigrwydd fel rhan o becyn adnoddau rheolwr plâu proffesiynol. Cyfeiriodd y BPCA at 'gannoedd' o

astudiaethau achos lle mae trapiau glud wedi'u defnyddio i osgoi sefyllfa lle mae busnesau a sefydliadau - gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal, meysydd awyr, ac adeiladau'r llywodraeth - wedi gorfod cau dros dro tra bod problem cnofilod yn cael ei datrys. Cyflwynwyd astudiaethau achos penodol yn ymwneud ag i) becws yn y Trallwng, ii) ffermdy yn Llansantffraid, iii) sawl tecawê a bwyty yng Nghaerdydd, iv) cegin ysbyty yng Ngwent, a v) cymdeithas dai yn Nhrefynwy, yn ddiweddarach. Pe bai gwaharddiad yn cael ei gyflwyno, roedd y BPCA yn honni y byddai 'miloedd o safleoedd sensitif' mewn perygl o gael eu heffeithio, a hyd yn oed gorfod cau, am bythefnos a mwy.

Cyfeiriodd y sector lles anifeiliaid at y dadansoddiad cost a budd a gynhyrchwyd yn 2005 fel rhan o waharddiad Talaith Victoria yn Awstralia a ddaeth i'r casgliad bod buddion disgwylidig y rheoliadau arfaethedig i wahardd defnyddio a gwerthu trapiau glud yn fwy na gwneud iawn am y costau disgwylidig, yn enwedig yn achos lles anifeiliaid.

## **9. A fydddech chi'n cefnogi gwaharddiad llawn ar drapiau glud? Pam / Pam ddim?**

Mae'r sefydliadau rheoli plâu yn llwyr gefnogi gwaharddiad ar y defnydd o drapiau glud gan y cyhoedd ond yn dadlau eu bod yn rhan hanfodol o becyn adnoddau'r rheolwr plâu proffesiynol ac y dylai hynny barhau.

Mae'r BPCA yn cyfeirio at gymwysterau safonol y diwydiant a'r Cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus fel sicrwydd ynghylch gallu rheolwyr plâu i ddefnyddio trapiau glud yn briodol. Asesir eu holl aelodau i Safon BS EN 16636 ar gyfer Rheoli Plâu a rhaid iddynt basio archwiliad i barhau'n aelodau.

Ar y llaw arall mae HSI yn cyfeirio at bryder am ddiffyg presennol unrhyw ddiffiniad ffurfiol neu gyfreithiol o weithredwr 'proffesiynol' a natur wirfoddol cod y diwydiant sydd, yn eu barn nhw, yn codi cwestiynau ynghylch unrhyw sicrwydd am gymhwysedd. Maent yn honni bod y diwydiant rheoli plâu wedi cydnabod nad oes ganddo awdurdod na rheolaeth dros ddefnyddwyr. Mae pryderon HSI yn ymestyn i god ymarfer y diwydiant ei hun, gan ddadlau nad yw wedi'i lunio gyda chanlyniadau lles anifeiliaid derbyniol fel ei ffocws – gyda'r gofyniad i wirio trapiau bob 12 awr yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o hynny.

Mae'r sector lles anifeiliaid yn cefnogi gwaharddiad llawn ar ddefnyddio trapiau glud, gyda rhai yn pwysu am i hyn gael ei ymestyn i'w gwerthu (tra'n cydnabod cyfyngiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU). Dadleuir nad oes modd gwneud fawr ddim i liniaru'r dioddefaint difrifol mae trapiau glud yn ei achosi sydd felly'n cyfiawnhau gwahardd eu defnydd mewn unrhyw amgylchiadau.

Mae'r RSPCA yn pwysu am roi ystyriaeth i'r trefniadau trapio ehangach hefyd, gan gynnwys trapiau Larsen, fel rhan o broses gynhwysfawr o gydgrynhoi cyfraith bywyd gwyllt Cymru, y mae rhannau ohoni'n dal i fod yn hynafol ac yn anhygyrch yn eu barn nhw.

## **Rhan II Cwestiynau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

### **1. A oes gan eich Awdurdod Lleol dîm rheoli plâu mewnol neu a ydych chi'n defnyddio contractwyr?**



Mae gan bob awdurdod lleol a ymatebodd dîm rheoli plâu mewnol

**2. Ble allai eich Awdurdod Lleol ymateb i alwadau rheoli plâu - Ysbytai? Ysgolion? Swyddfeydd/eiddo'r Cyngor? Tai? Etc.**

Dim ond ar gyfer eiddo'r awdurdod lleol y mae rhai awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau rheoli plâu, ond byddant yn cynnig cyngor i bobl yn y sector preifat hefyd. Mae gan eraill gontractau megis gyda busnesau masnachol, tai, neu ysgolion. Ac mae rhai'n cynnig gwasanaeth am dâl i bob math o adeiladau preifat a masnachol.

**3. A oes gennych chi bolisi ar ba ddulliau rheoli marwol y gellir eu defnyddio?**

Nid oes gan awdurdodau lleol yng Nghymru bolisi fel y cyfryw ar ba reolaethau marwol y byddant yn eu defnyddio (neu'n caniatáu i gontractwyr eu defnyddio), fodd bynnag maent wedi deall arferion sy'n gofyn am gynnal safonau trwy hyfforddiant rheolaidd, cod ymarfer, ac asesiadau risg.

**4. A yw'ch gwasanaethau rheoli plâu'n defnyddio trapiau glud yn rheolaidd?**

Ymatebodd dau awdurdod lleol i ddweud nad ydynt yn defnyddio trapiau glud o gwbl a dywedodd dau eu bod yn eu defnyddio dan amgylchiadau eithriadol o gyfyngedig yn unig. Bydd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (ac eithrio Cyngor Caerdydd a ymatebodd ar wahân) yn eu defnyddio i ddal llygod mawr mewn eiddo domestig gyda'r Swyddog Plâu yn bresennol drwy'r adeg.

**5. Os felly, faint a pha mor aml? (neu ba gyfran y maent yn ei chynrychioli)**

O'r ddau awdurdod lleol sydd prin yn defnyddio trapiau glud a hynny mewn amgylchiadau hynod gyfyngedig yn unig, ymatebodd un i ddweud nad oeddent wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ymatebodd y llall i ddweud tua 3-4 gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd sy'n llai nag 1% o ddigwyddiadau. Amcangyfrifodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (ac eithrio Cyngor Caerdydd a ymatebodd ar wahân) eu bod yn defnyddio trapiau glud ar gyfer cnofilod tua dwsin o weithiau'r flwyddyn.

**6. Os nad ydych chi'n eu defnyddio, pam ddim?**

Ymatebodd tri awdurdod lleol i ddweud bod trapiau glud yn cael eu hystyried yn greulon. Ystyrir hefyd eu bod yn llafurddwys a dywedodd un awdurdod lleol nad yw'r adnoddau angenrheidiol ganddynt i ddarparu'r gwiriadau rheolaidd sy'n ofynnol gyda thrapiau glud.

**7. Pa amgylchiadau penodol sy'n gofyn am ddefnyddio trapiau glud fel yr unig ddull hyfyw o reoli plâu? Pa ddulliau amgen o reoli plâu sydd ar gael?**

Dyweddod un awdurdod lleol sy'n defnyddio trapiau glud na fyddent byth yn cael eu hystyried fel yr unig ddull ymarferol ond ar yr achlysuron prin y maent yn cael eu defnyddio byddai hynny fel dull ychwanegol i helpu i gael canlyniad cyflymach. Ymatebodd un arall i ddweud bod trapiau glud yn cael eu hystyried lle mae pob dull arall yn aneffeithiol ac mae'r cnofilod yn peri digon o risg – enghraifft o unigolyn hynod fregus gyda symudedd cyfyngedig, lle'r oedd dulliau eraill wedi methu dro ar ôl tro.

## **8. A yw'r dulliau amgen hyn o reoli plâu yn effeithiol?**

Roedd yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod dewisiadau amgen yn effeithiol y rhan fwyaf o'r amser ond nodwyd y gallant fod yn arafach yn gweithio mewn rhai achosion. Mae un yn ystyried profi cynnyrch newydd sy'n gweithredu'n gyflym i ladd cnofilod.

## **9. Pa sgil-ffeithiau fyddai pe na bai trapiau glud ar gael fel dull o reoli plâu?**

Ymatebodd tri awdurdod lleol i ddweud na fyddai unrhyw sgil-ffeithiau yn sgil gwaharddiad ar drapiau glud. Ymatebodd un i ddweud y byddai risg sylweddol o ran iechyd y cyhoedd i ddeiliaid eiddo.

Nodwyd hefyd y dylai trapiau glud barhau i fod yn opsiwn i reoli chwain a chwilod duon er mwyn osgoi dod i gysylltiad â phryfleiddiaid.

## **10. Beth fyddai'r goblygiadau economaidd a chymdeithasol?**

Nododd tri awdurdod lleol na fyddai goblygiadau economaidd na chymdeithasol er bod un yn nodi y gallai fod angen i safleoedd bwyd aros ar gau am gyfnod hirach ac efallai y bydd yn rhaid i ysgolion brynu gwasanaethau i mewn. Dywedodd un y gallai niferoedd fynd yn drech mewn rhai busnesau mewn rhai amgylchiadau, a nododd un arall y gallai fod ystyriaethau i ddarparwyr gofal iechyd rheng flaen.

## **11. Pa dystiolaeth yr ydych yn ymwybodol ohoni fod trapiau glud naill ai'n ddull creulon neu heb greulondeb o reoli plâu?**

Mae pob awdurdod lleol yn cydnabod bod trapiau glud yn greulon, gyda'r dystiolaeth yn dod o gyrsiau hyfforddi (megis Killgerm), gan sefydliadau fel yr RSPCA, ac yn seiliedig ar wybodaeth am y dioddefaint diangen sy'n digwydd. Dywedodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, sef y defnyddiwr mwyaf o drapiau glud ymhlith yr awdurdodau lleol a ymatebodd, eu bod yn greulon i lygod mawr os ydynt yn cael eu gadael at y diben hwn, heb eu goruchwylio. Yn ôl Sir Benfro nid oes modd cyfiawnhau dioddefaint gormodol, fodd bynnag maent yn credu bod rhaid cydbwysu hyn yn erbyn risg clefyd i'r boblogaeth.

**12. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ymchwil ar gost a manteision trapiau glud naill ai yn y DU neu dramor?**

Nid oedd yr un awdurdod lleol yn ymwybodol o unrhyw ymchwil o'r fath.

**13. A fydddech chi'n cefnogi gwaharddiad llawn ar drapiau glud? Pam / Pam ddim?**

Ymatebodd tri awdurdod lleol i ddweud eu bod yn cefnogi gwaharddiad gydag un yn datgan nad oes angen trapiau glud. Awgrymodd un y dylai trapiau glud fod ar gael o dan amgylchiadau defnydd a ganiateir yn unig (fel yn achos rheoli adar) er mwyn sicrhau bod pob dull rhesymol wedi'i rhoi ar waith gyntaf er y nodwyd y gallai oedi wrth eu defnyddio wneud hyn yn heriol mewn sefyllfa lle mae amser yn brin. Dywedodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (ddim yn cynrychioli Caerdydd yn yr achos hwn) nad ydynt am weld gwaharddiad ac o'u defnyddio'n gywir gall trapiau glud fod yn fuddiol o gymharu â dulliau eraill.

**14. Faint ydych chi'n ei wario ar reoli plâu?**

Nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu darparu'r wybodaeth hon a nododd un bod cyfrifo hyn yn her o ystyried bod rhai o'r costau'n cael eu gosod yn erbyn yr incwm o'r gwasanaethau a ddarperir mewn llawer o achosion. Maent yn cydbwysu gwerth y costau os yw gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gontract allanol yn erbyn y rhai sy'n cael eu darparu yn fewnol hefyd.

## Rhestr o'r ymatebwyr:

<b>Cyrff rheoli plâu:</b>	
Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain	Cymdeithas Technegwyr Plâu Cenedlaethol
<b>Sefydliadau lles anifeiliaid:</b>	
OneKind	Cymdeithas Milfeddygon Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Milfeddygol Prydain
RSPCA	Universities Federation for Animal Welfare
Cats Protection	Humane Society International UK
Born Free Foundation	Wild Animal Welfare Committee
<b>Awdurdodau lleol yng Nghymru:</b>	
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg	Cyngor Sir Gâr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Penfro	

## Cyfeiriadau a ddyfynwyd gan ymatebwyr:

Animal Welfare Board of India (2020) 'Request to issue strictly directions to ban the use of Glue Traps', 26 Tachwedd 2020. Ar gael yn <http://awbi.in/awbi-pdf/Directions%20to%20ban%20the%20glue%20traps.pdf>.

Baker, S.E., Ellwood S.A., Tagarielli V.L., a Macdonald, D.W. (2012) Mechanical Performance of Rat, Mouse and Mole Spring Traps, and Possible Implications for Welfare Performance. PLoS ONE 7(6): e39334. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0039334>

Baker, S.E., Ayers, M., Beausoleil, N. J., Belmain, S. R., Berdoy, M., Buckle, A.P., Cagienard, C., Cowan, D., Fearn-Daglish, J., Goddard, P., Golledge, H.D.R., Mullineaux, E., Sharp, T., Simmons, A., a Schmolz, E. (2022) An assessment of animal welfare impacts in wild Norway rat (*Rattus norvegicus*) management, *Animal Welfare*, 31: 51-68. <https://www.ingentaconnect.com/contentone/ufaw/aw/2022/00000031/00000001/art00005> DOI: 10.7120/09627286.31.1.005

Datganiad Polisi Cymdeithas Milfeddygon Prydain (2019) ar drapiau glud cnofilod. Ar gael yn <https://www.bva.co.uk/media/1159/rodent-glue-traps.pdf>.

Buckle, A.P. (2013) Anticoagulant resistance in the UK and a new guideline for the management of resistant infestations of Norway rats (*Rattus norvegicus* Berk.) *Pest Management Science* 69(3):334-341

Buckle, A.P. a Prescott, C.V. (2011) Effects of tamper-resistant bait boxes on bait uptake by Norway rats (*Rattus norvegicus* Berk.). *International Journal of Pest Management*, 57 (1). tt. 77-83

Alan P. Buckle, A.P., Prescott, C., Coan, E.E., a Rymer, D. (2018) Anticoagulant Resistance in Rats and Mice in the UK – Current Status in 2018: Gweler Adroddiad rhif: VPU/18/015 gan Reading University, Rodent Resistance Action Committee. Project: Rodent Management

BVZS Position statement on the control of free-ranging wildlife. Ar gael yn: <https://www.bvzs.org.uk/wpcontent/uploads/2021/03/BVZS-Position-Statement-on-the-control-of-Free-ranging-Wildlife-Final-Feb-2021.pdf>

Canadian Association for Humane Trapping (2013) Evaluation of the Humaneness of Rodent Capture Using Glue Traps. Ar gael yn <http://www.caht.ca/evaluation-of-the-humaneness-of-rodent-capture-using-glue-traps>

Centers for Disease Control. 'Trap Up!', 29 Gorffennaf 2010. Ar gael yn [https://www.cdc.gov/rodents/prevent\\_infestations/trap\\_up.html](https://www.cdc.gov/rodents/prevent_infestations/trap_up.html).

Clapperton B. K. (2014) A review of the current knowledge of rodent behaviour in relation to control devices: SCIENCE FOR CONSERVATION 2014, 263 tt 1-48

Dubois, S., Fenwick, N., Ryan, E.A., Baker, L., Baker, S.E., Beausoleil, N.J., Carter, S., Cartwright, B., Costa, F., Draper, C., Griffin, J., Grogan, A., Howald, G., Jones, B., Littin, K.E., Lombard, A.T., Mellor, D.J., Ramp, D., Schuppli, A.A., a Fraser, D. (2017) International consensus principles for ethical wildlife control. *Conserv. Biol.* 31, 753–760. <https://conbio.onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/cobi.12896>

Fenwick N. (2013) Evaluation of the humaneness of rodent capture using glue traps, prepared for the Canadian Association of Humane Trapping, 31 Gorffennaf 2013. Ar gael ar-lein yn: <http://www.caht.ca/evaluation-of-the-humaneness-of-rodent-capture-using-glue-traps/>.

Frantz, S.C. a Padula, C.M. (1983) A laboratory test method for evaluating the efficacy of glueboards for trapping house mice. Yn: *Vertebrate Pest Control and Management Materials: Fourth Symposium*, (Gol. D. E. Kaukeinen), tt. 209–225. Philadelphia, PA: American Society for Testing and Materials.

Humane Society International (2015) Inhumane Indiscriminate Indefensible: The case for a UK ban on rodent glue traps. Ar gael ar-lein yn: <https://www.hsi.org/wp-content/uploads/assets/pdfs/hsi-glue-trap-report.pdf>.

Humphries, R.E., Meehan, A.P. a Sibly, R.M. (1992) The Characteristics and History of Behavioural Resistance in Inner-City House Mice (*Mus domesticus*) in the UK. *Proceedings of 15th Vertebrate Pest Conference*, University of Nebraska, 1992

Humphries, R.E., Sibly, R. M., a Meehan, A.P. (2000) Cereal aversion in behaviourally resistant house mice in Birmingham, UK. *Appl. Anim. Behav. Sci.*, 66, 323-333. (erratum vol 69, 175-176)

Icelandic Food and Veterinary Authority (MAST) (2021) 'Mouse movement – which methods of killing pests comply with the law', 10 Rhagfyr 2021. Ar gael yn <https://www.mast.is/is/um-mast/frettir/frettir/musagangur-hvada-adferdir-vid-aflifun-meindyra-samrymast-logum>

- Iossa G., Soulsbury C.D., a Harris S. (2007) Mammal trapping: a review of animal welfare standards of killing and restraining traps. *Animal Welfare*. 16(3): 335-352. UFAW
- Kerins, G.M. a MacNicoll, A.D. (1999) Comparison of the half-lives and regeneration rates of blood clotting factors II, VII, and X in anticoagulant-resistant and susceptible Norway rats (*Rattus norvegicus* Berk.). *Comp. Biochem. Physiol. C Pharmacol. Toxicol. Endocrinol.* 122, 3.
- Littin K., Fisher P., Beausoleil N.J., Sharp T. (2014) Welfare aspects of vertebrate pest control and culling: ranking control techniques for humaneness. *Rev. sci. tech. Off. Int. Epiz* 33(1): 281-289
- Mason, G. a Littin, K. (2003) The humaneness of rodent pest control. *Animal Welfare*. 12(1): 1-35. UFAW  
[https://atrium.lib.uoguelph.ca/xmlui/bitstream/handle/10214/4712/Mason\\_%26\\_Littin\\_2003.pdf?sequence=1&isAllowed=y](https://atrium.lib.uoguelph.ca/xmlui/bitstream/handle/10214/4712/Mason_%26_Littin_2003.pdf?sequence=1&isAllowed=y)
- Meerburg, B.G., Brom, F.W.A. a Kijlstra, A. (2008) The ethics of rodent control. *Pest Management Science* 64(1205):1211-341
- Mellor, D.J. (2017) Operational Details of the Five Domains Model and Its Key Applications to the Assessment and Management of Animal Welfare. *Animals*, 7, 60
- Mellor, D.J., Beausoleil, N.J., (2015) Extending the 'Five Domains' model for animal welfare assessment to incorporate positive welfare states. *Animal Welfare*, 24: 241-253
- Munro, R. a Munro, H.M.C. (2008) 'Traps and Snares' in *Animal Abuse and Unlawful Killing Forensic Veterinary Pathology*. Caeredin, Elsevier Saunders
- Murphy, G., Baker, R.D., Thomas, A.F. a Fowler, M. (2014) The influence of bait presentation on bait uptake by mice (*Mus domesticus*) in infested urban domestic dwellings January 2014 *International Journal of Pest Management* 60(1)
- Murphy E.G., Williams, N J., Bennett M., Jennings D., Chantrey J., McElhinney L.M. (2019) Detection of Seoul virus in wild brown rats (*Rattus norvegicus*) from pig farms in Northern England. *Vet Rec.* 2019 Ebrill 27;184 (17):525. doi: 10.1136/vr.105249. Epub 2019 Ebrill 5. PMID: 30952778; PMCID: PMC6582813.
- New Zealand Ministry of Primary Industries (2015) Review-of-rodent-monitoring-and-control-methods-as-alternatives-to-glueboard-traps.  
<https://www.mpi.govt.nz/dmsdocument/8196-2015-15-review-of-rodent-monitoring-and-control-methods-as-alternatives-to-glueboard-traps>
- New Zealand Ministry for Primary Industries - Traps and devices: Animal welfare and pest management, fel ar 10 Ionawr 2022 <https://www.mpi.govt.nz/animals/animal-welfare/traps-devices-animal-welfare-pest-management/#B>
- Pest Management Alliance – Code of Best Practice Humane Use of Rodent Glueboards. (2017)  
[https://bpca.org.uk/write/MediaUploads/Documents/Codes%20of%20Best%20Practice/CoBP\\_Pest\\_Management\\_Alliance\\_Humane\\_Rodent\\_Glue\\_Boards.pdf](https://bpca.org.uk/write/MediaUploads/Documents/Codes%20of%20Best%20Practice/CoBP_Pest_Management_Alliance_Humane_Rodent_Glue_Boards.pdf)

Quy, R. (2011) Review of the use of bait boxes during operations to control Norway rats, *Rattus norvegicus* – adroddiad i CIEH

Quy, R.J., Cowan, D., Prescott, C.V., Gill, J.E., Kerins, G.M., Dunsford, G., Jones, A., a MacNicoll, A.D. (1995) Control of a population of Norway rats resistant to anticoagulant rodenticides. *Pesticide Science* 45 : 247-256

Rzoska J. (1953) Bait Shyness, A Study in Rat Behaviour *British Journal of Animal Behaviour*: Cyf 1, Rhifyn 4, Hyd. 1953, tt. 128-135

Rochlitz, I., Pearce, G.P. a Broom, D.M. (2010) The Impact of Snares on Animal Welfare. OneKind Report on Snaring, Centre for Animal Welfare and Anthrozoology, Department of Veterinary Medicine, Cambridge University Animal Welfare Information Service.

Scottish Animal Welfare Commission Report on the use of rodent glue traps in Scotland (2021) <https://www.gov.scot/publications/scottish-animal-welfare-commission-report-use-rodent-glue-traps-scotland/>

Scottish SPCA (2017) Submission to Scottish Parliament Petition PE01671: Sale and Use of Glue Traps. Ar gael yn:  
[https://archive2021.parliament.scot/S5\\_PublicPetitionsCommittee/Submissions%202017/PE1671A\\_SSPCA.pdf](https://archive2021.parliament.scot/S5_PublicPetitionsCommittee/Submissions%202017/PE1671A_SSPCA.pdf)

Sharp, T., Saunders, G., (2008) A model for assessing the relative humaneness of pest animal control methods. Australian Government Department of Agriculture, Fisheries and Forestry, Canberra, ACT

Simmons, J. a Swindells, C (2017) Controlling House Mice in the Food Industry. Proceedings of the Ninth International Conference on Urban Pests.  
<https://www.icup.org.uk/media/zcslvdrz/icup1195.pdf>

State Government of Victoria, Department of Primary Industries (2005) Regulatory Impact Statement, Prevention of Cruelty to Animals (Prohibition of Glue Trapping) Regulations 2005, [https://s3.ap-southeast-2.amazonaws.com/hdp.au.prod.app.vic-engage.files/7715/6583/6121/POCTA\\_RIS\\_2019.pdf](https://s3.ap-southeast-2.amazonaws.com/hdp.au.prod.app.vic-engage.files/7715/6583/6121/POCTA_RIS_2019.pdf).

Traweger, D., Travnitzky, R., Moser, C., Walzer, C. a Bernatzky, G. (2006) Habitat preferences and distribution of the brown rat (*Rattus norvegicus* Berk.) in the city of Salzburg (Austria): implications for an urban rat management. *Journal of Pest Science*, 79, 113–125

UFAW (2008) Guiding principles in the humane control of rats and mice. Ar gael ar-lein yn:  
<https://www.ufaw.org.uk/rodent-welfare/rodent-welfare>

Canllawiau Llywodraeth y DU (2008) Hantaviruses, cyhoeddwyd 11 Medi 2008  
<https://www.gov.uk/guidance/hantaviruses>

Yeates, J. (2010) What can pest management learn from laboratory animal ethics? *Pest Management Science* 66(231):237-341.